

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 04.09.2018
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cynghorwyr ; Dylan Jones, Danny Davies, Derick Lock, Gethin Edwards, Arwel Nicholas, Eirion Evans, Pamela Jones, Elfed Davies, Cynghorydd Sir, Irfon Jones.
Ymddiheuriadau: Neb

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cytunwyd eu bod yn gywir – AN & PJ	
Materion yn Codi	<p>Cynllun Gwella Trafnidiaeth – Y Clerc yn adrodd iddo ddanfôn neges at J McEvoy am ddiweddariad ond iddo heb dderbyn ateb. IJ yn dweud fod J McEvoy wedi gadael ei swydd ac mae Richard Waters yw ei olynydd.</p> <p>Cynhadledd Llandrindon - Clerc yn rhannu hanes o fynychu cynhadledd 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' yn Llandrindod ac iddo siarad gyda Gwyneth Ayers. Awgrymodd ei gwahodd I gyfarfod o'r Cyngor, er mwyn iddi rhannu gwybodaeth am y Mesur newydd yma.</p> <p>Yswiriant – Cafwyd gostyngiad sylweddol yn y pris a ddyfynnwyd gan Zurich pan deallont fod ganddyn gystadleuaeth, a phenderfyniad y Cadeirydd, DJ oedd I'w dderbyn.</p> <p>Safle Ailgyrchu – Clerc wedi siarad gyda'r Cyngor ynglyn a'r mater ond wedi methu cael esboniad clir am yr hyn sydd yn digwydd o fewn yr Adran. Mater i Bwyllgor y Neuadd I drafod yw hwn.</p> <p>Cadeirydd y Cyngor; Mansel Charles – Clerc wedi ysgrifennu ato gyda'r gwyn nad ydi democratiaeth leol yn gweithio ond heb gael ateb.</p>	
Gohebiaeth	Y Clerc yn rhannu gwybodaeth ond dim I'w gofnodi.	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	Trywydd, £75.00 – cytunwyd ei dalu GE & AN Cyflog y Clerc, £130.60 – cytunwyd ei dalu PJ & EE	
UFA	<p>Y Clerc yn son bod drws y Ty Hers wedi torri; y fecanwaith sydd yn cynorthwyo'r drws I godi wedi torri. DD yn dweud fod ei frawd, Tommy yn deal sut mae ei drwsio. Hefyd, y Clerc yn ymddiheurio iddo fethu a threfnu Cyfarfod Agored I drafod sut mae gwario arian Fferm Wynt Brechfa.</p> <p>AN – Son bod Meddygfa Teifi yn cau ac efallai bydde'n dda I'r Cyngor ysgrifennu a chodi pryder am y penderfyniad. AN & ED o</p>	

	<p>blaid ysgrifennu.</p> <p>GE – Blyche blode a cherbyd sy'n rhwystro trafndiaeth ar Rhiw Graig; IJ yn dweud fod Steve Pilliner ag yntau wedi ymweld a'r safle a bod cynlluniau ar waith.</p> <p>PJ – Cyflwr truenus Rhiw Graig; DJ yn awgrymu trefnu rasys beics!</p> <p>EE – Dim</p> <p>DL – Dim</p> <p>IJ – Dim</p> <p>ED – Dim</p> <p>DD – Coeden wedi cwmpo yng Nghwm Hagar ac wedi gwanhau'r heol</p> <p>DJ – Angen sylw ar arwyddbost Sgŵar Bethoron</p>	
Cyfarfod yn gorffen	8.55	

<p>Cafwyd yn gywir :</p> <p>(Cadeirydd)</p> <p>Dyddiad :</p>	<p>Cafwyd yn gywir :</p> <p>(Ysgrifennydd)</p> <p>Dyddiad:</p>
--	--